



<b>Enw:</b>	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
<b>Sefydliad:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
<b>Cyfeiriad Eboost:</b>	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<i>02920 541 551</i>
<b>Cyfeiriad:</b>	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
<b>Dyma safbwyntiau:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

### Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).<sup>1</sup> Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n

<sup>1</sup> Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treilau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

## Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

### 1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru?

Fel y nodwyd gennym yn ein hymateb i 2018-19, er gwaethaf ymrwymiad yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru 2016-21 i gyllido'n gynaliadwy wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, rydym wedi parhau i weld cyllido blynyddol tymor byr yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r cyllid ar gyfer y sector, ond ar adeg ysgrifennu hwn, nid ydym yn sicr o hyd ynghylch sut y mae hyn yn edrych. Mae llawer o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru wedi adrodd eu bod yn parhau i'w chael yn amhosibl cynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol oherwydd eu dibyniaeth ar gyllid blynyddol gan awdurdodau lleol a grantiau tymor byr ychwanegol. Mae gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru yn ceisio adferiad wedi blynyddoedd o gyllido ansicr ac ansefydlog, gyda rhai yn wynebu toriadau cyllid o flwyddyn i flwyddyn.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



Parhawn i fod yn ansicr ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Grant Cymorth Tai a'r grant Plant a Chymunedau yn cefnogi darpariaeth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er gwaetha'r ffaith fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gorgyffwrdd â'r holl feysydd y bydd y grantiau hyn yn eu cwmpasu. Mae'n peri pryder arbennig gan nad yw fframwaith canlyniadau'r grantiau yn cynnwys unrhyw nodau penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r diffyg clustnodi neu gynhwysiant yn y fframwaith canlyniadau ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol, nad ydynt o bosibl yn blaenoriaethu gwariant ar wasanaethau arbenigol.

Rydym yn parhau i fod yn aneglur hefyd ynghylch a yw cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei ystyried yn arian cyhoeddus ac a ellir ei ddefnyddio ai peidio i gefnogi menywod nad oes modd iddynt gael arian cyhoeddus ac sy'n ceisio cael mynediad at loches. Rydym wedi parhau i weld diffyg adnoddau i alluogi sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gefnogi menywod sydd â statws mewnfudo ansicr. Er ein bod yn sylweddoli y gwneir penderfyniadau ynghylch lles ar lefel y DU, rydym yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy, o fewn y pwerau sydd ganddi, i gefnogi goroeswyr nad oes ganddynt hawl i gael cyllid cyhoeddus, yn enwedig o ystyried ei hymrwymiad i fod yn Genedl Noddfa i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae'r loteri 'cod post' barhaus o ran gwasanaethau i blant ledled Cymru yn bryder mawr i Cymorth i Ferched Cymru ac mae hyn yn gysylltiedig â'r diffyg gweithredu parhaus ynghylch y bwriad ar gyfer cyllid cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi bod yn gweithio ar fodel busnes sy'n cynnwys prisiadau ar gyfer gweithwyr plant arbenigol yng Nghymru i ddangos ble mae angen mwy o gyllid i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r angen ledled Cymru.

Hefyd yn cyd-fynd â chyllid cynaliadwy y mae'r ffocws parhaus ar waith argyfwng ar draws y sector; mae angen mwy o gyllid i sicrhau bod darpariaeth o waith ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gael ledled Cymru i gyrraedd goroeswyr yn gynt. Fodd bynnag, ni all hyn fod ar draul gwaith ymyrraeth mewn argyfwng. Mae model Newid sy'n Para Cymorth i Ferched Cymru yn enghraifft o arfer da o ran sut y gall cymunedau gefnogi ymyrraeth gynharach<sup>2</sup>.

<sup>2</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/>

<sup>3</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/statutory-guidance-for-the-commissioning-of-vawdasv-services-in-wales.pdf>



O ran comisiynu gwasanaethau, roedd Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu Canllawiau Comisiynu Gwasanaethau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<sup>3</sup>, yn enwedig y ffaith iddynt gynnwys ein diffiniad o wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau caffael lleol, mewn rhai ardaloedd, yn parhau i fynnu bod gwasanaethau yn mynd allan i dendr, gan roi gwasanaethau arbenigol lleol mewn perygl ac o dan bwysau. Mae gwaith i'w wneud o hyd o ran dealltwriaeth comisiynwyr o'r gofynion o dan y canllawiau comisiynu newydd. Yn gysylltiedig â hyn, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf unodd aelod o Cymorth i Ferched Cymru â sefydliad arall, gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn parhau ar gyfer goroeswyr ac efallai iddo arwain at well fformat i gomisiynwyr, ond ei fod wedi peryglu colli gwybodaeth arbenigol leol.

## **2. Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2020-21? Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd y dyfodol?**

Mae'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i wynebu ansicrwydd oherwydd diffyg cyllid diogel a chynaliadwy. Mae gwasanaethau arbenigol gan ac ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gwasanaethau i fenywod ag anghenion cymhleth a lluosog a gwasanaethau trais rhywiol yn parhau i fod mewn perygl arbennig. Canfu ein Hadroddiad ar Gyflwr y Sector fod gwasanaethau trais rhywiol wedi wynebu'r gostyngiad cyffredinol mwyaf o 20.2% mewn cyllid yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Dylai cyllid cynaliadwy olygu y dylai fod yna gyllid a chynaliadwyedd tymor hwy i wasanaethau arbenigol. Dylai hyn gynnwys cylchredau ariannu o o leiaf bum mlynedd.

Yn gysylltiedig â hyn y mae'r ddarpariaeth loteri cod post ar gyfer gweithwyr plant, gyda rhai gwasanaethau (er enghraifft) yn parhau i fethu â chynnig gweithiwr penodedig i blant. Mae angen gwreiddio pwysigrwydd gwario ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn penderfyniadau cyllidebol, yn enwedig o fewn awdurdodau lleol, mae ymateb cydgysylltiedig, integredig a 'chymuned gyfan' i ataliad yn hanfodol.

Mae menywod sy'n ffoi rhag camdriniaeth heb fod hawl ganddynt i gyllid cyhoeddus mewn perygl arbennig gan na allant gael darpariaeth atal bywyd gan loches. Byddem yn disgwyl, gweld ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi'r garfan hon o fenywod a phwyswn ar Lywodraeth Cymru i egluro a ellir defnyddio Cefnogi Pobl ar gyfer y garfan hon.

Pryderwn am effaith Brexit ar oroeswyr a'r gwasanaethau sydd yna i'w cefnogi; mae'r broses Brexit yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y menywod y gall eu hawliau gael eu cyfyngu neu eu dileu, wrth i statws menywod yr UE yn y DU newid ar ôl Brexit. Mae hyn yn gysylltiedig

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



â'r diffyg mynediad at gymorth sydd eisoes yn bodoli i fenywod sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau yn debygol o brofi cynnydd mewn prisiau ynni a chynnydd posibl yn y galw, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig, lle mae colli swyddi yn debygol o fod yn uwch, gan effeithio ar statws ariannol goroeswyr ac felly eu dibyniaeth ar wasanaethau am gymorth. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru felly i roi cynlluniau ar waith i sicrhau, waeth beth fo ffurf Brexit, nad oes yna rwystrau pellach i unrhyw un sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag cael mynediad at gymorth atal bywyd.

Rydym yn dal i bryderu am effaith credyd cynhwysol a sut y gall hyn hwyluso cam-drin economaidd. Heb gael troi at gyllid, mae'n mynd yn anos i fenywod adael partner camdriniol. Er bod taliadau budd-dal yn cael eu penderfynu ar lefel y DU, eto pwyswn ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i liniaru effaith camdin economaidd ar oroeswyr yng Nghymru.

Yn olaf, fel y dywedwyd, rydym yn parhau i bryderu ynghylch diffyg canlyniad penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer pob nod yn y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i gynnwys canlyniad penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i bob nod yn y fframwaith canlyniadau ar gyfer y grant, a hynny yn unol â'r nod canlyniad o gael Cymru fwy cydradd o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **3. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb, oes gennych unrhyw sylwadau penodol ynghylch unrhyw un o'r meysydd a nodir isod?**

**- dull o wario ataliol a sut y caiff hwn ei gyfleu wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar), yn arbennig mewn perthynas â chyllido byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae gwariant ar waith ataliol yn parhau'n isel er gwaethaf bwriad polisi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. O safbwynt trais yn erbyn menywod a merched, mae angen mwy o adnoddau ar gyfer y gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arwyddion cynnar trais a cham-drin. At hyn, dylai gwaith ataliol gynnwys gwaith ymyrraeth gynnar gyda goroeswyr a phlant sy'n profi'r 'arwyddion cynnar' o drais a cham-drin ond sydd hefyd yn targedu drwgweithredwyr sy'n dangos arwyddion o ymddygiad camdriniol, a hynny cyn iddo ddechrau gwaethygu.

Yn rhy aml, ni fu cymorth ar gael tan bod y cam-drin wedi cyrraedd stad o argyfwng, tra gall gwaith ataliol gamu i'r adwy yn llawer cynt gan ei atal rhag gwaethygu, gwaith i ddileu effaith ddi-droi'n-ôl byw gyda cham-drin hirdymor ar blant ac, yn y pendraw, arbed pwysau gwariant

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx





ar bwrs y wlad.<sup>4</sup> Dylai darparu cyllid cynaliadwy, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, hefyd weithio tuag at fodel ataliol effeithiol yn ogystal â sicrhau cynnal rhwydwaith o wasanaethau cymorth atal bywyd. Er y gall gwaith ataliol, dros amser, ysgafnhau'r galw ar wasanaethau eraill, mae'n rhaid i gyllid ar gyfer y gwaith atal bywyd o ymyrryd mewn argyfwng a ddarperir gan sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol barhau.

Mae ymateb cydgyssylltiedig cyfan i ataliad yn hanfodol. Mae angen i lunwyr polisi ymrwmo

<sup>4</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Sarah-WEB.gif>

i flaenoriaethu ataliad ar draws penderfyniadau cyllidebol adrannol, gan gynnwys dyrannu adnoddau i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn adrannau tai, iechyd, addysg, diogelu, cyfiawnder troseddol a dioglewch cymunedau, llywodraeth leol a chyllid gan y bydd yr adrannau hyn yn elwa'n ariannol o ddull ataliol o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

#### **- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau**

Mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi nodi iechyd fel maes a ddylai dderbyn blaenoriaeth o ran gwariant, ond mae'n cydnabod y bydd mesurau cyni parhaus ar lefel y DU yn effeithio ar feysydd eraill gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sylweddoli bod gan ofal iechyd da rôl bwysig, ond byddem yn galw am gynnydd mewn gwariant mewn meysydd sy'n effeithio ar iechyd, megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gost i ofal iechyd o ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn uchel<sup>5</sup> a phe bai adnoddau yn cael eu dyrannu i atal neu ddiwallu anghenion goroeswyr yn llawer cynt, byddai'r adnoddau presennol a ddedfnyddir i'w drin yn medru cael eu hailflaenoriaethu i feysydd eraill.

Mae toriadau i wasanaethau cyhoeddus eraill yn parhau i gael effaith ar sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn enwedig yn nhermau toriadau i wasanaethau iechyd meddwl, defnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau arbenigol sydd eisoes dan bwysau. Yn anffodus, nid oes gan lawer o wasanaethau adnoddau/capasiti digonol i ddarparu'r lefel o gymorth dwys parhaus sydd ei angen. Caiff y toriadau hyn i wasanaethau eu dwysáu gan effaith Brexit, ac mae pryderon yn parhau ynghylch sut y gall Cymru gynllunio gwariant ar wasanaethau cyhoeddus tra bod ansicrwydd ynghylch Brexit yn parhau.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



Mae model 'Newid sy'n Para' Cymorth i Ferched Cymru yn enghraifft o newid systemau, lle yr ymatebir i oroeswyr a drwgweithredwyr a lle caiff cymunedau eu huwchsgilio i adnabod yr arwyddion yn gynt, i ymateb yn briodol ac i gyfeirio pobl at gymorth arbenigol. Er mwyn cynnal dull newid systemau sy'n trawsnewid gwasanaethau argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllidebau traws-adrannol yn cefnogi'r broses o gyflwyno canllawiau amlasiantaeth statudol sy'n cyflawni newid sytsemau a 'Newid sy'n Para'; gan flaenoriaethu darpariaeth sydd wedi'i harwain gan anghenion ac wedi'i seilio ar gryfderau ac sy'n gosod goroeswyr cam-drin yn ganolog i unrhyw ymyrraeth.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r fframwaith

<sup>5</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/772180/horr107.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772180/horr107.pdf)

Gofyn a Gweithredu. Fodd bynnag, mae angen cyllid pellach i sicrhau y caiff hyn ei wneud yn effeithiol. Yn ddigon priodol, mae gwasanaethau arbenigol yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r hyfforddiant; ond mae aelodau wedi'n hysbysu fodd bynnag mai costau darparu'r hyfforddiant yn unig y mae'r cyllid yn eu talu, a hynny yn aml yn is na chyfradd y farchnad, heb gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer paratoi deunydd neu lenwi rolau staff a dynnwyd allan i gyflwyno'r hyfforddiant. At hyn, caiff capasiti ei brofi yn sgil y galw cynyddol ar wasanaethau lleol oherwydd hyfforddiant ac eto nid oes gyllid ychwanegol i gefnogi hyn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod gan asiantaethau'r sector cyhoeddus y capasiti i ymrwymo'n llwyr i hyfforddi.

**- Polisiâu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twf economaidd, i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol ac i leihau diwygiadau lles**

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fesur Cynnydd Cenedl ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fe nodwyd gennym fod menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a bod tlodi yn gweithredu fel rhwystr i fenywod rhag symud ymlaen o gamdriniaeth a thrais. Yn ei dro, gall yr effaith a gaiff byw gyda cham-drin ar iechyd meddwl ei wneud yn anos cael gwaith. Ein dadl felly oedd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy o fewn ei phwerau ar lefel ddatganoledig i weithio i ddileu'r ffactorau sy'n achosi tlodi, megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a cham-drin economaidd yn benodol.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol atal menywod rhag bod yn gyfartal â dynion yn economaidd, heb waith i ddileu hyn, bydd yn anodd llwyddo i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae agweddau ar system budd-daliadau Llywodraeth y DU yn tansilio cynnydd tuag at gydraddoldeb, sylweddolwn nad yw hyn wedi'i ddatganoli ond ailadroddwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i liniaru effaith y polisïau hyn, yn arbennig taliad sengl credyd cynhwysol sy'n cynnig cyfle i ddrwgweithredwyr gamddefnyddio budd-daliadau i ynysu a rheoli goroeswyr ymhellach drwy gam-drin economaidd. Yn ein digwyddiad Sieciau a Balansau diweddar, canfu'r cyfranogwyr fod menywod wedi dwyn baich y mesurau caledi yn enwedig trwy ddiwygio lles a chyflwyno'r credyd cynhwysol. Mae cyllid yn parhau i gael ei ddylanwadu gan rywedd a gall dynion sy'n rheoli menywod fanteisio ar hyn er budd iddynt hwy eu hunain, mae'r defnydd o gam-drin economaidd wedi'i gysylltu â statws economaidd is menywod, felly mae'n rhaid i unrhyw waith i leihau tlodi, anghydraddoldeb ac effaith diwygio lles ystyried cam-drin economaidd fel ffactor sy'n cynnal anghydraddoldeb ariannol.

### - Cynllunio a pharatoi Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit

Er gwaethaf galwadau gan Lywodraeth Cymru, nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo Cymru i baratoi ar gyfer effaith Brexit heb gytundeb posibl ac mae manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd yn aneglur.

Mae unrhyw ganlyniad i Brexit yn debygol o effeithio'n negyddol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Pryderwn am fynediad at ffrydiau cyllido'r UE yn y dyfodol a cholli cyllid ar gyfer prosiectau sydd eisoes yn derbyn cymorth gan yr UE. Pryderwn am y cynnydd yn nifer y menywod na allant efallai gael mynediad at gyllid cyhoeddus, yn enwedig yn achos Brexit heb gytundeb, a menywod sy'n methu, neu nad ydynt yn medru â chael mynediad i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, neu sy'n cael eu hatal yn fwriadol rhag cael mynediad iddo, yn arbennig menywod sy'n gaeth o dan reolaeth gymhellol, nad yw eu tystiolaeth ar gael neu mae wedi'i rheoli gan y drwgweithredwr.

Mae menywod sy'n dioddef trais a cham-drin sydd â statws mewnfudo ansicr neu sydd â statws sy'n ddibynnol ar eu partner yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth chwilio am gymorth pan fônt yn ceisio ymadael. Hwylusir yr ymagwedd hon gan yr amgylchedd gelyniaethus y mae llawer o fenywod mudol yn dweud iddynt ei brofi'n aml mewn archwiliadau mewnfudo gyda gwasanaethau gofal iechyd, tai ac addysg. Mae'r garfan hon o fenywod hefyd yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at amddiffyniad, cymorth a gwasanaethau arbenigol, a hynny oherwydd diffyg cyllid o fewn y sector. Mae Cymorth i

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx





Ferched Cymru yn pryderu y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu ar ôl Brexit, gan y bydd mwy o fenywod o bosibl yn wynebu colli eu hawliau i adnoddau cyhoeddus.

Beth bynnag fydd canlyniad Brexit, bydd yn effeithio'n andwyol ac yn anghymesur ar fenywod, a fydd yn ei dro yn golygu effaith negyddol ar oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd menywod sy'n byw mewn tlodi a'r gwasanaethau sydd eisoes dan bwysau y gallant ddod i ddibynnu arnynt yn cael eu heffeithio'n arbennig gan gynydd mewn costau ynni a bwyd. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU am eglurder a sicrwydd ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin a sicrwydd na fyddai Cymru 'yn colli ceiniog' pe bai Brexit yn digwydd.

### **- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethi a benthyca, yn arbennig mewn perthynas â Chyfradd Treth Incwm Cymru**

Yn ein hymateb y llynedd, gofynnwyd gennym am ymrwymiad cynyddol gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio cyfradd treth incwm Cymru i fuddsoddi mewn ataliad a chymorth i oroeswyr a phlant/pobl ifanc. Er gwaethaf bwriad polisi i gynyddu gwaith ataliol, ni welsom

hyn ar lawr gwlad hyd yn hyn, er bod cost cam-drin domestig yng Nghymru yn £66 biliwn<sup>6</sup> ar gyfer Lloegr a Chymru. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymyrraeth ac ataliad cynnar, gan fod y sgil effeithiau cymdeithasol yn bellgyrhaeddol.

### **- Sut y mae tystiolaeth yn cymell Llywodraeth Cymru wrth bennu blaenoriaethau a gwneud dyraniadau cyllideb**

Cefnogwyd y model Newid sy'n Para gan Lywodraeth Cymru fel model ar gyfer ymyrraeth ac ataliad cynnar, ar sail blynnydoedd o weithio gyda goroeswyr a thystiolaeth ymchwil. Er bod Llywodraeth Cymru yn dadlau o blaid y model hwn, mae'r cyllid presennol ar gyfer y cynllun peilot yn Ne Cymru, sy'n cynnwys pob agwedd ar y model, Gofyn i Fi, Gweithiwr Proffesiynol ag Ymddiriedaeth a gwaith ymyrraeth gynnar gyda drwgweithredwyr, wedi'i gyllido gan Gronfa Trawsnewid y Swyddfa Gartref. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn dadlau o blaid dyrannu cyllid ar sail model sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r model yn cydnabod anghenion goroeswyr ag anghenion cymorth lluosog, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag oed a phrofiad bywyd, a'i nod yw manteisio i'r eithaf ar allu gwasanaethau arbenigol i ymateb i'r anghenion unigol hynny.

### **- Polisiâu Llywodraeth Cymru i gryfhau'r economi a hyrwyddo arloesi**

Bydd mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cefnogi polisiâu Llywodraeth Cymru i gryfhau'r economi. Roedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gost i'r economi nid yn unig drwy gostau'r heddlu, iechyd a thai,

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



ond hefyd drwy gollu gwaith. Naill ai bod dioddefwyr/goroeswyr yn gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd canlyniadau trais, neu'n symud i ffwrdd ar gyfer diogelwch/i mewn i loches ac yn gorfod rhoi'r gorau i weithio neu'n cael eu hatal rhag gweithio gan y drwgweithredwr. At hyn, gwyddom fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael eu teimlo drwy gydol bywyd a phroffir llawer o'r rhain yn arbennig gan blant sy'n byw mewn cartrefi camdriniol. Felly gall effaith hirdymor y rhain ar iechyd corfforol a meddyliol effeithio ar ragolygon swyddi ac yn eu tro ar yr economi. Felly er mwyn gweld economi ffyniannus mae angen mynd i'r afael yn llwyddiannus â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai Llywodraeth Cymru osod cyfrifoldebau ar gyflogwyr a'r rheini sy'n gweithio gyda phlant i liniaru effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Heb fodolau craidd cynaliadwy o weithio, sydd â chyfraddau llwyddo sydd wedi'u profi o ran cefnogi pobl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ni allwn gael arloesi. Mae'n hanfodol bod comisiynwyr yn sicrhau bod modelau yn gweithio, ar sail tystiolaeth, yn hytrach na chyllido modelau arloesol er mwyn arloesi. Mae 'Newid sy'n

<sup>6</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/772180/horr107.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772180/horr107.pdf)

Para' yn enghraifft o ffordd arloesol o weithio, ond sy'n cadw darpariaeth gwasanaeth sefydliedig sydd wedi'i brofi yn greiddiol iddi.

### - Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar lunio polisïau

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Mesur Cynnydd Cenedl' yn gynharach yn y flwyddyn ein dadl oedd ei bod yn bwysig enwi'n benodol drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u gweu i mewn i'r meini prawf ar gyfer y dangosyddion llesiant, gan fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael effaith ar draws nifer o feysydd polisi. Byddem yn galw am gydweddu'r Ddeddf hon yn agosach â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a phryderwn, oherwydd y bylchau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nad yw'n cael ei hystyried yn llawn.

Byddai buddsoddiad priodol mewn gwasanaethau arbenigol ledled Cymru hefyd yn gymorth i sicrhau bod nifer o 'Nodau Llesiant' y Ddeddf yn cael eu bodloni, er mwyn creu Cymru fwy ffyniannus, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru iachach fwy cyfartal.

Mae gan waith ymyrraeth ac ataliad cynnar ar gyfer trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, y potensial i

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx



wneud gwahaniaeth enfawr i ffyniant a llwyddiant Cymru yn y degawdau sydd i ddod. Mae'n rhaid i gyllidebu ar gyfer cyllido yn y dyfodol hefyd gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau hyn.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 78 response to Welsh Gov draft budget - FINAL.docx